

Enghreifftiau o ddarpariaeth feithrin hyblyg o fewn y Cyfnod Sylfaen

Grŵp Chwarae Alphabet ac Ysgol Gynradd Undy, Sir Fynwy

Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre a Little Sunflowers, Wreccsam

Ysgol Gynradd Nant y Parc, Senghennydd, Caerffili (Dechrau'n Deg)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Grŵp Chwarae Alphabet ac Ysgol Gynradd Undy, Sir Fynwy



Y cyd-destun

Mae Grŵp Chwarae Alphabet yn lleoliad cyfrwng Saesneg nas cynhelir mewn adeilad dros dro ar safle Ysgol Gynradd Undy, Sir Fynwy. Mae ganddo ei fynedfa ei hun ond gellir mynd i'r lleoliad drwy adeilad yr ysgol hefyd.

Nid oes llawer o le dan do gan y grŵp chwarae, ond mae'n darparu holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddo ardal awyr agored sy'n addas ar gyfer yr holl feysydd dysgu hefyd. Mae'r Grŵp yn cael mynd i ardal Ysgol Goedwig yr ysgol bob wythnos ac yn cael defnyddio tir yr ysgol.

Darpariaeth

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ar gyfer 19 o blant 2 ½ - 4 oed ac wedi'i gofrestru fel lleoliad qofal dydd.

Dyma'r sesiynau sydd i'w cael ar hyn o bryd:

- Clwb Brecwast o 8.30am – 9am
- Sesiwn Fore o 9am – 11.30am
- Clwb Cinio o 11.30am – 12.30pm
- Sesiwn Brynhawn o 12.30pm – 3pm

Mae gan yr ysgol ddosbarth meithrin awdurdod lleol sy'n cynnig 30 o lefydd bore a 30 o lefydd prynhawn ar gyfer darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae'r lleoliad yn darparu gofal plant cofleidiol i'r plant hyn os oes ei angen ar eu rhieni/gofalwyr. Mae llawer o'r plant wedi mynychu Grŵp Chwarae Alphabet cyn hyn felly maent yn gyfarwydd â staff ac amgylchedd y lleoliad eisoes.

Mae'r lleoliad wedi'i gymeradwyo i fod yn feithrinfa ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel y gall plant dderbyn y ddarpariaeth a ariennir yn y lleoliad os bydd meithrinfa'r awdurdod lleol yn llawn. Mae rhai rhieni/gofalwyr yn dewis cadw eu plant yn y lleoliad am ddau dymor cyntaf darpariaeth y Cyfnod Sylfaen, hyd yn oed pan fydd llefydd ar gael yn lleoliad yr ysgol, yn enwedig plant sydd ag oedi yn eu datblygiad neu pan fydd y rhieni'n teimlo y byddent yn elwa ar fod mewn amgylchedd llai gyda llai o blant a chymhareb staff-i-blant uwch.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda staff yr ysgol i sicrhau bod pontio'n digwydd mor ddidrafferth â phosibl. Os yw plant yn mynychu meithrinfa'r awdurdod lleol ac yn derbyn eu gofal plant cofleidiol yng Ngrŵp Chwarae Alphabet, mae'r ysgol yn rhannu'r Proffil Cyfnod Sylfaen gyda'r lleoliad fel y gall gynllunio'n briodol. Mae cynlluniau datblygu unigol yn cael eu rhannu hefyd fel bod y ddau leoliad yn gweithio ar yr un targedau.

Os yw plant yn mynychu Grŵp Chwarae Alphabet cyn dechrau ym meithrinfa'r awdurdod lleol, maent yn dod yn gyfarwydd â staff ac amgylchedd yr ysgol gan eu bod yn ymuno â nhw ar gyfer gwasanaethau, cyngherddau a digwyddiadau arbennig. Mae plant yn cael cyfle i dreulio amser yn ystafell ddosbarth y feithrinfa a bydd yr athro'n ymweld â'r plant yn y lleoliad.

Yn yr arolygiad diweddaraf gan Estyn, barnwyd bod perfformiad cyfredol y Grŵp a'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda, ac fe nodwyd bod pob maes arall yn dda hefyd. Ni roddwyd unrhyw farn ar safonau a llesiant gan nad oedd digon o blant a ariannwyd yn bresennol adeg yr arolygiad.

Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre a Little Sunflowers, Wreccsam



Y cyd-destun

Mae Little Sunflowers yn lleoliad nas cynhelir sydd wedi'i ariannu i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, y tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed, am hyd at ddau dymor. Mae wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre, Wreccsam.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn symud i ddosbarth meithrin a gynhelir yn yr ysgol y mis Medi canlynol. Darperir lleoliadau Dechrau'n Deg yma hefyd.

Yn 2016, sylwodd Estyn a'r awdurdod lleol fod lefelau iaith y plant a oedd yn cyrraedd y lleoliad yn hynod o isel ar gyfer eu hoedran. Hefyd, nodwyd lefelau mynediad is na'r disgwyl trwy sgorau dechreuol Proffil y Cyfnod Sylfaen.

Adnabod anghenion yn gynnar

Yn 2016, cafodd 27 y cant o blant y Cyfnod Sylfaen eu nodi fel rhai oedd angen ymyrraeth gynnar a chawsant eu rhoi ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA), sy'n golygu bod ymyriadau cynnar a phrydlon wedi eu sicrhau.

Cafodd y plant hyn o leiaf dymor o gymorth proffesiynol, wedi'i dargedu, gan y lleoliad ac asiantaethau allanol yn ystod eu hamser yn Little Sunflowers. Pan aeth y plant ymlaen i'r dosbarth meithrin, roedd 20 y cant ar y gofrestr AAA ac roedd systemau cymorth eisoes ar waith ar gyfer y grŵp hwn o blant. Roedd saith y cant ohonyn nhw wedi gwneud digon o gynnydd i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr AAA cyn mynd i'r dosbarth meithrin. Parhaodd y cymorth hwn yn yr ysgol, diolch i broses bontio lwyddiannus.

Hefyd, cafodd canran o blant y Cyfnod Sylfaen eu nodi a'u cefnogi o fewn y teulu a'r lleoliad gan asiantaethau allanol, gan sicrhau bod ymyriadau prydlon ac amserol wedi'u cynnal. Rhannwyd y wybodaeth bontio hon ag athro'r dosbarth meithrin a swyddog diogelu'r ysgol, gan olygu y gallai'r ysgol barhau i ddarparu cymorth proffesiynol wedi'i dargedu o fewn y lleoliad a gydag asiantaethau allanol.

Cymorth a hyfforddiant

Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r lleoliad a chymorth gan gydlynnydd lleferydd ac iaith cyn-ysgol. Hefyd, mae'r lleoliad yn cael hyfforddiant i ddatblygu ymyriadau iaith cynnar effeithiol.

Mae athro cyswllt y lleoliad yn gweithio yn nosbarth meithrin yr ysgol ac yn ymweld â'r lleoliad bob pythefnos er mwyn datblygu arferion da mewn strategaethau addysgu, cynllunio a hunanwella. Mae'r plant yn magu perthynas dda ag athrawon cyn symud i'r feithrinfa.

Cynnydd

Ym mis Medi 2016, symudodd plant y Cyfnod Sylfaen i'r dosbarth meithrin. O'r cohort o 30 o blant, roedd 53% o'r dosbarth meithrin wedi bod yn narpariaeth Cyfnod Sylfaen Little Sunflowers y tymor blaenorol.

Mae asesiadau dechreuol ac olrhain gydol y cyfnod meithrin yn dangos bod bron i bob plentyn wedi symud gryn dipyn yn nes at y cyfartaledd cenedlaethol erbyn diwedd tymor y gwanwyn 2017, a rhai hyd yn oed yn cyrraedd y cyfartaledd hwnnw. Llwyddodd dau blentyn i wneud yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol disgwylidig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd tymor yr haf, roedd bron i bob plentyn wedi cyflawni'r cyfartaledd cenedlaethol neu'r dangosydd deilliant disgwylidig ar gyfer eu hoedran, gan wneud cynnydd sylweddol o'u pwyntiau cychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn achos yr un cohort o blant, rhagwelir y bydd 93 y cant yn cyflawni Deilliant 5 (dangosydd deilliant disgwylidig) a thri y cant yn cyflawni Deilliant 6 (sy'n well na'r dangosydd deilliant disgwylidig) ar ddiwedd Blwyddyn 2, yn 2019, gan brofi bod ymyriad cynnar mewn lleoliad Cyfnod Sylfaen o'r radd flaenaf, gyda gweithdrefnau cymorth a monitro effeithiol ar waith, yn creu canlyniadau gwych yn y tymor hir.

Ysgol Gynradd Nant y Parc, Senghennydd, Caerffili (Dechrau'n Deg)



Y cyd-destun

Ysgol gynradd i blant 3-11 oed yw Ysgol Gynradd Nant y Parc. Mae lle i 204 o blant yn yr ysgol, ac mae'r feithrinfa'n derbyn 29 o blant. Mae'r pennaeth wedi ymrwymo i ddatblygu cysylltiad yr ysgol â'r gymuned, ac mae wedi bod yn rhagweithiol yn hynny o beth wrth feithrin cysylltiadau â gofal plant – er mwyn cefnogi datblygiad y plant a chynnig darpariaeth ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio.

Darpariaeth

Mae Dechrau'n Deg yn cael ei ddarparu ar y safle mewn adeilad wrth ymyl yr uned feithrin. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i gyflogi a rheoli Dechrau'n Deg drwy Gydlynnydd Gofal Plant. Ar gyfer y plant hynny sy'n byw yn lleol y mae Dechrau'n Deg. Mae'r gofal ar gael i blant o'r tymor pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn ddwy oed nes y tymor pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn dair oed, pan fyddant wedyn yn symud i'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar yn ei huned feithrin, sy'n cynnig darpariaeth ran-amser yn y bore. Yn ystod amser cinio, mae'r uned yn newid i gynnig gofal cofleidiol i blant sy'n cael ei gynnal gan ddarparwr gofal plant allanol di-elw. Mae hynny'n caniatáu i rieni / gofalmwr naill ai gasglu eu plant o'r sesiwn feithrin neu dalu am ginio a gofal cofleidiol am y prynhawn. Mae'r darparwr wedi'i gofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru, ac felly gall rieni / gofalmwr cymwys gael y cymorth ariannol hwnnw i dalu am eu lleoedd gofal cofleidiol. Am ffi, gall y darparwr gofal plant hefyd gynnig lleoedd i rieni / gofalmwr nad ydynt eto'n gymwys ar gyfer y cynnig, a hefyd eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn i rieni / gofalmwr gael gwybod am y cymorth ariannol arall sydd ar gael, megis gofal plant di-dreth, credydau treth gofal plant, neu gynlluniau talebau.